Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

Materion iechyd a chynaliadwyedd

Mae gwybodaeth am rai o'r materion hyn i'w gweld yn arddangosfa'r Cartref Cyfan.

Iechyd pwy?
Bydd cynhesu byd-eang yn arwain at newidiadau yn yr hinsawdd, cynefin a thirwedd ar draws y blaned.
Pa broblemau iechyd sy'n codi yn sgil hyn i bobl yn:

rhanbarth y Sahel yn Affrica

gwledydd Prydain

Yr Iseldiroedd a Bangladesh

Sut mae ein ffordd-o-fyw'n ymwneud â'r problemau sy'n cael eu hachosi i bobl mewn gwledydd eraill drwy gynhesu byd-eang?

Yma, yn y Ganolfan. rydym yn ceisio defnyddio defnyddiau na fydd yn niweidio iechyd pobl ? Pa ddefnyddiau adeiladu sy'n gallu bod yn niweidiol i iechyd? Eglurwch pam bod pob un yn niweidiol.

Mae tua 97% o'r trydan a ddefnyddir yng ngwledydd Prydain yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio tanwydd niwclear a ffosiledig. Pa effaith y gall hyn ei chael ar iechyd pobl?

Beth yw effaith y defnydd cynyddol o geir yn ei chael ar iechyd pobl?

Mae llawer iawn o bobl sy'n byw ar incwm isel yng ngwledydd Prydain yn byw mewn cartrefi sy'n drafftiog, llaith ac yn ddrud i'w cynhesu. Sut all technolegau sydd i'w gweld yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen wella iechyd pobl?

Sut allwn ni wella ein hiechyd yn y ffyrdd y byddwn yn trin ein gerddi?

Byddwn yn trin holl ddŵr gwastraff a charthion y Ganolfan ar y safle, gan eu rhoi at ddefnydd da yn y pen draw.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Sut mae'r ffordd y byddwn yn trin carthion yn ymwneud â materion iechyd?